TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd
Modern Cynnar
Adran A: Yr Ymerodraeth Songhai, tua 1464 – tua 1591
Adran B: Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526 – tua 1707

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys

Papur Cwestiynau 3

Cynllun Marcio 8

Grid mapio 34 a 35

SAMPL

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.

# TGAU

# 3130NL

## TGAU Hanes – Uned 3
## Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd
## 3: Modern cynnar

## 1 awr
## DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

SAMPL

**Deunyddiau ychwanegol**
Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft | 0 | 1 |

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrïol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu amser a lleoliad y fersiwn wreiddiol o'r ffynonellau hyn.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B

## Adran A

### 3.3 Yr Ymerodraeth Songhai tua 1464 – tua 1591

**0 1** Disgrifiwch arferion diwylliannol pobl y Songhai. **[5]**

**0 2** Esboniwch pam roedd ymgyrchoedd milwrol Sonni Ali rhwng 1468 a 1492 yn bwysig. **[10]**

**0 3** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch y system arian cyfred yn yr Ymerodraeth Songhai. **[5]**

**b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth ar gyfer hanesydd
sy'n astudio Oes Aur y Songhai yn y unfed ganrif ar bymtheg**.** **[15]**

| **Eitem 1** | Leo Africanus, diplomydd ac awdur Sbaenaidd, yn ysgrifennu yn ei lyfr *The Cosmography and Geography of Africa* (1526). Cafodd Africanus ei eni'n Fwslim, ond daeth yn Gristion ac yn ddiweddarach ysgrifennodd am ei brofiadau yn teithio ledled gorllewin Affrica. |
|---|---|
| Mae tai Timbuktu yn gytiau wedi'u gwneud o glai âthoeau gwellt. Yng nghanol Timbuktu mae mosg wedi'i adeiladu ogarreg ac mae palas mawr lle mae'r brenin yn byw. Mae'r bobl sy'n byw yn Timbuktu yn gyfoethog iawn, yn enwedig y dieithriaid sydd wedi ymgartrefu yn y wlad. Mae'r brenin presennol wedi rhoi dwy o'i ferched mewn priodas i ddau frawd, y ddau yn ddynion busnes, oherwydd eu cyfoeth. Mae llawer o ffynhonnau sy'n cynnwysdŵr glân yn Timbuktu. Pan fydd yr Afon Niger yn gorlifo mae dŵr yn cael ei anfon i'r ddinas. Mae grawn ac anifeiliaid yn helaeth, felly mae llawer o laeth a menyn ar gael. | |

| **Eitem 2** | Katie Amery a Teni Gogo, athrawon hanes ac awduron, yn ysgrifennu yn eu gwerslyfr ar gyfer plant 11 i 13 oed, *African Kingdoms: West Africa* (2023) |
|---|---|
| Erbyn tua 1450 roedd Timbuktu yn gartref i 100 000 o bobl, ddwywaith cymaint â Llundain bryd hynny, ac roedd yn parhau i ffynnu fel rhan o Deyrnas y Songhai. Roedd y ddinas yn ganolfan i fywyd cymdeithasol pobl. Roedd llawer o'r tai wedi'u hadeiladu o gerrig ac roedd sgwâr cyhoeddus mawr lle'r oedd marchnadoedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd o leiaf un mosg hefyd: Cafodd Mosg Djinguereber ei adeiladu gan Mansa Musa cyn i Deyrnas y Songhai gael ei sefydlu. | |



© WJEC CBAC Ltd. 2024 

**0 4** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch ddigwyddiadau Brwydr Tondibi ym 1591. **[5]**

**b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** bod yr Ymerodraeth Songhai wedi'i dymchwel oherwydd iddi gael
ei gorchfygu gan y Morociaid ym Mrwydr Tondibi ym 1591. **[20]**

| **Eitem 3** | Awdur anhysbys, yn ysgrifennu yn y llyfr o ddiddordeb cyffredinol The Songhai Empire (2022). Mae'r llyfr yn rhan o'r gyfres Captivating History, sy'n honni ei bod yn gwneud hanes yn ddiddorol, yn hwyl ac yn ddefnyddiol. |
|---|---|

Brwydr Tondibi oedd safiad olaf y Songhai nerthol. I'r rhan fwyaf o'r fyddin a'r anifeiliaid a gafodd eu defnyddio yn y frwydr, hwn oedd eu profiad cyntaf o fysgedau a chanonau. Cynigiodd rheolwr y Songhai aur a chaethweision i'r Morociaid dynnu'n ôl ond gwrthod gwnaethant a gorymdeithio ar Gao, gan ei dinistrio. … Erbyn mis Ebrill, anelodd y Morociaid am ganolfannau masnachu Djenne a Timbuktu gyda'r nod o oresgyn y deyrnas. … Ysbeiliodd ac anrheithiodd y fyddin Forocaidd y trefi masnachu hynafol a daethant â dinistr economaidd a gwleidyddol i'r Ymerodraeth Songhai.

**DIWEDD ADRAN A**

**Trowch drosodd ar gyfer Adran B**



© WJEC CBAC Ltd. 2024



SAMPL

## Adran B

### 3.4 Yr Ymerodraeth Mughal tua 1526 – tua 1707

**0 5** Disgrifiwch Frwydr Gyntaf Panipat, 1526. **[5]**

**0 6** Esboniwch pam y datblygodd celf a phensaernïaeth Mughal yn ystod rheolaeth Shah Jahan. **[10]**

**0 7** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch ddatrys anghydfod teuluol gan Aurangzeb. **[5]**

**(b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth ar gyfer hanesydd
sy'n astudio effaith duwioldeb crefyddol Aurangzeb. **[15]**

| **Eitem 1** | Bakhtawar Khan, hanesydd ac ymgynghorydd i'r ymerawdwr Aurangzeb, yn ysgrifennu yn ei adroddiad am agweddau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol yr Ymerodraeth Mughal, *Mir-at-i 'alam* [Drych y Byd] (ail ganrif ar bymtheg) |
|---|---|

Mae ysgrifenwyr Hindŵaidd wedi'u gwahardd yn llwyr rhag dal swyddi cyhoeddus, ac mae holl leoedd addoli a themlau mawr yr anffyddwyr hyn [anghredinwyr] wedi cael eu dymchwel a'u dinistrio mewn modd mor llwyddiannus mae wedi synnu pobl bod tasg mor anodd wedi'i chwblhau.

Mae Ei Fawrhydi (Aurangzeb) yn dysgu'r ffydd Fwslimaidd yn bersonol i'r rhai nad ydynt yn Fwslimiaid gyda llwyddiant, ac mae holl fosgiau'r ymerodraeth yn cael eu trwsio ar draul y cyhoedd.

| **Eitem 2** | John Keay, hanesydd, newyddiadurwr a chyflwynydd yn ysgrifennu yn ei lyfr o ddiddordeb cyffredinol *India: A history from the earliest civilizations to the boom of the twenty-first century* (2010) |
|---|---|

Mae cefnogwyr Aurangzeb yn dadlau bod Shah Jahan hefyd wedi gwahaniaethu yn erbyn pobl nad oeddent yn Fwslimiaid ac wedi targedu temlau. Mewn gwirionedd, dinistriodd Aurangzeb ond ychydig o demlau ac roedd wedi caniatáu i eraill allu codi arian. Roedd y safleoedd a gafodd eu difrodi wedi'u dewis am eu bod yn fygythiad gwleidyddol neu ideolegol... Doedd hyd yn oed y jizya (treth ar bobl nad oeddent yn Fwslimiaid) ddim yn afresymol ac roedd y tlotaf wedi'u heithrio rhag talu. Ar ben hynny, mae'n ymddangos yn annhebygol y cafodd y dreth ei chasglu o gwbl yn rhanbarthau mwy anghysbell yr ymerodraeth.



© WJEC CBAC Ltd. 2024


SAMPL

**0 8** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch brif egwyddorion ffydd ddwyfol Akbar. **[5]**

**(b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** yr oedd rheolaeth Akbar yn llwyddiannus oherwydd iddi ddynodi cyfnod o oddefgarwch crefyddol. **[20]**

| **Eitem 3** | Awdur anhysbys yn ysgrifennu yn y dudalen wybodaeth *"Mughal Empire (1500s, 1600s)"* fel rhan o'r adran Grefydd ar wefan y BBC (2009) |
|---|---|
| Gweithiodd Akbar yn galed i ennill calonnau a meddyliau'r arweinwyr Hindŵaidd. Er mai digon tebyg yr oedd hyn am resymau gwleidyddol – priododd dywysoges Hindŵaidd (a'r sôn yw y priododd sawl mil o wragedd at ddibenion gwleidyddol a diplomyddol) – roedd hefyd yn rhan o'i athroniaeth.<br>Roedd Akbar yn credu y dylid caniatáu pob crefydd, ac mai dyletswydd rheolwr oedd trin pob crediniwr yn gyfartal, beth bynnag eu cred. | |

SAMPLE

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

**Egwyddorion marcio generig**

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.

- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.

- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).

- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

**Marcio cadarnhaol**

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae’r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu’r dull o’i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy’n llai na pherffaith os yw’n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso’r cynllun marcio’n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy’n wrthrychol neu’n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio’n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys *’Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall’* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio’n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo’r ateb yn gywir ond wedi’i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy’n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a’r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cynllun marcio ar gyfer Adran A

| Cwestiwn 1 | Cyfanswm y marciau |
|---|---|
| Disgrifiwch arferion diwylliannol pobl y Songhai. | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd cerddoriaeth yn bwysig i bobl y Songhai gydag offerynnau traddodiadol fel y balafon (offeryn taro), y djembe (drwm), y goje (ffidil un llinyn) a'r liwt yn cael eu chwarae. Yn aml, roedd adrodd straeon yn cael ei wneud drwy gân ac roedd yn bwysig trosglwyddo diwylliant a thraddodiadau trwy'r geiriau.
- Yn aml, byddai dawnsiau traddodiadol ochr yn ochr â chaneuon y Songhai, yr oeddent yn credu eu bod yn cysylltu pobl â'r byd ysbrydol. Byddant yn cael eu perfformio mewn cynulliadau cymunedol ac mewn digwyddiadau arbennig fel priodasau.
- Roedden nhw'n gwisgo dillad traddodiadol gyda mentyll a thiwnigau llaes wedi'u gwneud o gotwm ac wedi'u lliwio'n lliwgar. Roedd dynion a menywod yn gwisgo gemwaith fel neclisau a breichledau wedi'u gwneud o aur, arian a gleiniau. Cafodd patrymau penodol eu defnyddio ar ddillad ac roedd iddynt arwyddocâd, gan ddangos teyrngarwch i'r llwyth, er enghraifft.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 2 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam roedd ymgyrchoedd milwrol Sonni Ali rhwng 1468 a 1492 yn bwysig. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Ehangodd ymgyrchoedd Sonni Ali diriogaeth a dylanwad y Songhai, gan ei gwneud yn un o'r ymerodraethau mwyaf yng Ngorllewin Affrica. Rhoddodd goresgyniad Timbuktu ym 1468 reolaeth i'r Ymerodraeth Songhai dros y llwybrau masnachu traws-Sahara, a gynyddodd gyfoeth yr Ymerodraeth. Trwy gipio dinasoedd fel Djenne, cynyddodd Sonni Ali ddylanwad gwleidyddol a diwylliannol yr Ymerodraeth Songhai.
- Arweiniodd yr ymgyrchoedd at gryfhau awdurdod canolog. Fe ddaeth masnachu gyda'r ardaloedd a gafodd eu hymgorffori yn rhan o'r Ymerodraeth â thwf economaidd a ffyniant yr oedd angen eu monitro. Cafodd yr ymerodraeth ymledol ei rhannu'n daleithiau wedi'u goruchwylio gan lywodraethwyr neu benaethiaid lleol a oedd yn deyrngar i Sonni Ali. Sicrhaodd y dynion hyn fod trethi ac adnoddau, gan gynnwys gweithlu, yn cael eu casglu'n effeithiol, ac rhoddwyd gwybod i Sonni Ali.
- Ar ben hynny, roedd ymgyrchoedd yn gyfle i Sonni Ali gryfhau'r fyddin a datblygu ei dactegau, gan gynnwys y defnydd o lynges. Cafodd canŵod eu defnyddio i deithio ar hyd yr Afon Niger a lansio ymosodiadau annisgwyl. Cafodd y marchoglu ei ddatblygu, a oedd yn bwysig wrth gipio Timbuktu a Djenne, er mwyn caniatáu i luoedd symud yn gyflym. Roedd y datblygiadau milwrol hyn yn caniatáu i Sonni Ali lansio ymgyrchoedd effeithiol pellach.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 3(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch y system arian cyfred yn yr Ymerodraeth Songhai. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd cregyn cowri yn fath cyffredin o arian cyfred yn yr Ymerodraeth Songhai, yn enwedig ar gyfer trafodion isel eu gwerth. Roeddent yn cael eu derbyn ar draws rhannau helaeth o Orllewin Affrica gan eu gwneud yn hawdd ac yn ddibynadwy i'w defnyddio. Roeddent yn effeithiol am eu bod yn hawdd eu cyfrif a'u cyfnewid am nwyddau, fel tecstilau a bwyd.
- Ar gyfer trafodion gwerth uchel, cafodd darnau arian aur ac arian eu defnyddio fel arian cyfred. Yn aml, cafodd darnau arian eu bathu mewn dinasoedd fel Goa ac roedd eu gwerth yn seiliedig ar eu cynnwys metel a'u pwysau. Y darn arian a gafodd ei ddefnyddio amlaf oedd y dinar, a gafodd ei dderbyn yn eang ac a oedd yn caniatáu masnachu gyda rhanbarthau eraill ar draws Affrica.
- Cafodd system ffeirio (*bartering*) ei defnyddio mewn marchnadoedd lleol lle'r oedd cyfnewid o nwyddau fel halen ac ifori. Mewn dinasoedd fel Timbuktu a Djenne, roedd pobl yn masnachu nwyddau fel bwyd a chrefft yn uniongyrchol.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024 

| Cwestiwn 3(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Timbuktu yn ystod Oes Aur y Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg**.**<br><br>**Eitem 1:** Leo Africanus, diplomydd ac awdur Sbaenaidd, yn ysgrifennu yn ei lyfr *The Cosmography and Geography of Africa* (1526). Cafodd Africanus ei eni'n Fwslim, ond daeth yn Gristion ac yn ddiweddarach ysgrifennodd am ei brofiadau yn teithio ledled gorllewin Affrica.<br><br>Mae tai Timbuktu yn gytiau wedi'u gwneud o glai gyda thoeau gwellt. Yng nghanol Timbuktu mae mosg wedi'i adeiladu o garreg ac mae palas mawr lle mae'r brenin yn byw. Mae'r bobl sy'n byw yn Timbuktu yn gyfoethog iawn, yn enwedig y dieithriaid sydd wedi ymgartrefu yn y wlad. Mae'r brenin presennol wedi rhoi dwy o'i ferched mewn priodas i ddau frawd, y ddau yn ddynion busnes, oherwydd eu cyfoeth. Mae llawer o ffynhonnau sy'n cynnwys dŵr glân yn Timbuktu. Pan fydd yr Afon Niger yn gorlifo, mae dŵr yn cael ei ddanfon i'r ddinas. Mae grawn ac anifeiliaid yn helaeth, felly mae llawer o laeth a menyn ar gael.<br><br>**Eitem 2:** Katie Amery a Teni Gogo, athrawon hanes ac awduron, yn ysgrifennu yn eu gwerslyfr ar gyfer plant 11 i 13 oed, *African Kingdoms: West Africa* (2023)<br><br>Erbyn tua 1450 roedd Timbuktu yn gartref i 100 000 o bobl, ddwywaith cymaint â Llundain bryd hynny, ac roedd yn parhau i ffynnu fel rhan o Deyrnas y Songhai. Roedd y ddinas yn ganolfan i fywyd cymdeithasol pobl. Roedd llawer o'r tai wedi'u hadeiladu o gerrig ac roedd sgwâr cyhoeddus mawr lle'r oedd marchnadoedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd o leiaf un mosg hefyd: Cafodd Mosg Djinguereber ei adeiladu gan Mansa Musa cyn i Deyrnas y Songhai gael ei sefydlu. | | **[15]** |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cynnwys Dangosol |
| --- |
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>**Cymariaethau:**<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn dangos yr oedd Timbuktu yn ffyniannus yn yr unfed ganrif ar bymtheg ac yn ddinas lewyrchus.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi yr oedd mosg yng nghanol Timbuktu gan ddangos pwysigrwydd Islam i'r bobl.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn dangos yr oedd Timbuktu yn ganolfan fasnachu. Mae Eitem 1 yn nodi yr oedd llawer o siopau. Mae Eitem 2 yn nodi y cynhaliwyd marchnadoedd yn rheolaidd yn y sgwâr cyhoeddus.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn dangos pwysigrwydd Timbuktu. Mae Eitem 1 yn nodi yr oedd palas lle'r oedd y brenin yn byw ac mae Eitem 2 yn nodi yr oedd ganddi fwy o drigolion na Llundain bryd hynny.<br><br>**Cyferbyniadau:**<br>• Mae Eitem 1 yn nodi yr oedd y tai wedi'u gwneud o glai gyda thoeau gwellt, ond mae Eitem 2 yn nodi yr oedd llawer o dai wedi'u gwneud allan o garreg.<br>• Mae Eitem 1 yn nodi yr oedd Timbuktu yn ffyniannus oherwydd ei leoliad ger Afon Niger ac argaeledd dŵr, ond mae Eitem 2 yn nodi yr oedd yn ffynnu oherwydd ei bod yn rhan o'r Ymerodraeth Songhai.<br>• Mae Eitem 1 yn nodi yr oedd mosg yng nghanol Timbuktu ac mae'n awgrymu mai cyflawniad y Songhai oedd hyn, ond mae Eitem 2 yn nodi bod Mosg Djinguereber wedi'i adeiladu gan Mansa Musa, cyn rheolaeth y Songhai o'r ddinas.<br>• Mae Eitem 1 yn hanes uniongyrchol ac yn farn bersonol Leo Africanus, ond mae Eitem 2 yn dod o werslyfr wedi'i anelu at gynulleidfa iau ac felly mae'n bosibl ei bod wedi'i symleiddio. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl ac eglur wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gosod, gyda rhywfaint o gywirdeb. Cymariaethau a chyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a** phriodoliadau |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **ac** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a/neu** briodoliadau |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **neu** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **neu** briodoliadau |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch ddigwyddiadau Brwydr Tondibi ym 1591. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Digwyddodd y frwydr ar 13 Mawrth 1591 rhwng y Songhai, dan arweiniad Askia Ishaq II, a'r fyddin Forocaidd lai o faint, dan arweiniad Judar Pasha.
- Sefydlodd y Morociaid safle caerog (*fortified*) a defnyddio eu magnelau (*artillery*) i fomio milwyr y Songhai, gan eu harwain i ffoi o faes y gad neu gael eu lladd gan danio'r gelyn. Roedd gan y Morociaid arfau gwell fel drylliau a chanonau, ond defnyddiodd y Songhai arfau traddodiadol fel gwaywffyn ac roeddent yn ddibynnol ar y marchoglu, a oedd yn eu rhoi dan anfantais.
- Enillodd y Morociaid y frwydr yn gyflym ac roedd yna anafusion sylweddol ymhlith y Songhai, a oedd yn dangos bod eu technegau brwydro wedi dyddio. Amlygodd Brwydr Tondibi wendidau'r Ymerodraeth Songhai.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** bod yr Ymerodraeth Songhai wedi'i dymchwel oherwydd iddi gael ei gorchfygu gan y Morociaid ym Mrwydr Tondibi ym 1591.<br><br>**Eitem 3:** Awdur dienw, yn ysgrifennu yn y llyfr o ddiddordeb cyffredinol *The* Songhai Empire (2022). Mae'r llyfr yn rhan o'r gyfres *Captivating History*, sy'n honni ei bod yn gwneud hanes yn ddiddorol, yn hwyl ac yn ddefnyddiol.<br><br>Brwydr Tondibi oedd safiad olaf y Songhai nerthol. I'r rhan fwyaf o'r fyddin a'r anifeiliaid a gafodd eu defnyddio yn y frwydr, hwn oedd eu profiad cyntaf o fysgedau a chanonau. Cynigiodd rheolwr y Songhai aur a chaethweision i'r Morociaid dynnu'n ôl ond gwrthod gwnaethant a gorymdeithio ar Gao, gan ei dinistrio. … Erbyn mis Ebrill, anelodd y Morociaid am ganolfannau masnachu Djenne a Timbuktu gyda'r nod o oresgyn y deyrnas. … Ysbeiliodd ac anrheithiodd y fyddin Forocaidd y trefi masnachu hynafol a daethant â dinistr economaidd a gwleidyddol i'r Ymerodraeth Songhai. | | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae rhywfaint o hygrededd i'r farn a fynegir yn Eitem 3 sy'n dweud bod yr Ymerodraeth Songhai wedi'i dymchwel oherwydd iddi gael ei gorchfygu ym Mrwydr Tondibi. Defnyddiodd y lluoedd Morocaidd eu drylliau a'u canonau gwell yn ystod y frwydr, a ddinistriodd luoedd y Songhai. Roedd hyn wedi dinistrio hyder y Songhai. Arweiniodd trafodaethau heddwch aflwyddiannus at ymlediad pellach gan y Morociaid.
- Yn dilyn y llwyddiant yn Tondibi, fe wnaeth cipio Goa a Timbuktu gan y Morocaid wanhau gallu'r Ymerodraeth i lywodraethu ac achosi ansefydlogrwydd o fewn yr ymerodraeth. Fe wnaeth ymosodiadau'r Morocaid effeithio ar y llwybrau masnachu traws-Saharaidd a chafodd hyn effaith ar sefydlogrwydd economaidd yr Ymerodraeth. Yn dilyn hyn, roedd yr Ymerodraeth Songhai yn ddarniog, gan rannu'n wladwriaethau cystadleuol ac ni adferwyd byth.
- Daw Eitem 3 o lyfr diddordeb personol sy'n nodi mai ei nod yw gwneud hanes yn hwyl ac felly gellir ei symleiddio. Gan nad yw'r awdur yn hysbys, mae'n anodd asesu lefel arbenigedd yr awdur yn hanes Ymerodraeth y Songhai, sy'n cyfyngu ar ei ddibynadwyedd.
- Gall ymgeiswyr herio'r farn trwy bwysleisio ffactorau eraill. Er enghraifft, gallan nhw ddadlau mai ffactorau economaidd ac amgylcheddol oedd yn gyfrifol am gwymp yr Ymerodraeth Songhai. Arweiniodd sychder at gnydau yn methu, llai o gyflenwadau bwyd ac achosodd newyn a wanhaodd sefydlogrwydd mewnol gan achosi aflonyddwch cymdeithasol o ganlyniad. Fe wnaeth dirywiad y prif lwybrau masnachu leihau'r llif o nwyddau gwerthfawr, fel halen a chaethweision a oedd yn hanfodol i sefydlogrwydd economaidd yr Ymerodraeth.



© WJEC CBAC Ltd. 2024



SAMPL

- Ar ben hynny, arweiniodd problemau arweinyddiaeth ac olyniaeth at gwymp yr Ymerodraeth Songhai. Pan fu farw Askia Daoud ym 1582, nid oedd cynllun olyniaeth amlwg a arweiniodd at anghydfodau ymhlith ei ddisgynyddion. Ymladdodd hawlwyr cystadleuol amrywiol am reolaeth, gan wanhau awdurdod canolog ac achosi ansefydlogrwydd. Ar ôl Askia Daoud, roedd un llywodraethwr ar ôl y llall yn wan ac yn aneffeithiol, ac arweiniodd hyn at wrthryfeloedd mewn rhannau o'r Ymerodraeth.
- Yn y pen draw gall ymgeiswyr ddod i'r casgliad mai Tondibi oedd y prif ffactor a arweiniodd at gwymp Ymerodraeth y Songhai, gallan nhw ddadlau bod ffactorau eraill yn fwy arwyddocaol ac wedi gwanhau'r Ymerodraeth cyn ymosodiad y Morociaid, neu gallan nhw ddod i'r casgliad bod y ffactorau hynny wedi gwneud niwed i'r Ymerodraeth ac mai Brwydr Tondibi oedd yr ergyd olaf.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cynllun marcio ar gyfer Adran B

| **Cwestiwn 5** | | **Cyfanswm y marciau** |
|---|---|---|
| Disgrifiwch Frwydr Gyntaf Panipat, 1526. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Ymladdwyd y frwydr rhwng Babur a Swltan Delhi, yr oedd ganddo fwy o ddynion. Er gwaethaf hyn, defnyddiodd lluoedd Babur arfau newydd fel mysgedau a chanonau, a roddodd fantais iddo.
- Defnyddiodd Babur dactegau milwrol arloesol fel rhannu ei fyddin yn grwpiau symudol llai. Gosododd ei ganonau y tu ôl i linell gaerog o gerti, a oedd hefyd yn amddiffyn ei fyddin ond roedd bylchau ynddi i ganiatáu i'w wŷr meirch ymosod.
- Ymosododd gwŷr meirch y Mughal ar luoedd y Swltan o'r cefn wrth i ystlysau ei fyddin symud yn eu blaen, gan arwain at Babur yn ennill y frwydr.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024 

| Cwestiwn 6 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam y gwnaeth celf a phensaernïaeth y Mughal ddatblygu yn ystod teyrnasiad Shah Jahan. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd Shah Jahan yn mwynhau dawnsio a cherddoriaeth ac roedd yn noddwr llenyddiaeth a dysgu. Cyfarwyddodd bod gwaith mathemateg a seryddiaeth wedi'i ysgrifennu yn Sansgrit yn cael eu cyfieithu i Berseg gan ddangos ei awydd i annog dysgu. Mae ei deyrnasiad yn cael ei ystyried yn oes aur datblygiad diwylliannol wrth iddo ddenu beirdd, ysgolheigion a deallusion o bob cwr o'r byd i gyfrannu at ei waddol diwylliannol.
- Yn ystod teyrnasiad Shah Jahan, roedd twf economaidd sylweddol yn yr Ymerodraeth Mughal a ddarparodd adnoddau ar gyfer prosiectau pensaernïol. Roedd ganddo werthfawrogiad o erddi a nodweddion dŵr, y defnydd o farmor, addurnau blodau a phatrymau geometrig a gafodd eu hymgorffori mewn llawer o brojectau pensaernïol gyda'r nod o greu paradwys ar y ddaear. Creodd Shah Jahan y Gaer Goch yn Delhi i fod yn enghraifft o bensaernïaeth y Mughal, gan ymgorffori waliau tywodfaen coch, palasau marmor a phyrth addurnol. Cafodd hon ei defnyddio fel prif breswylfa ymerawdwyr y Mughal am bron i 200 mlynedd, gan ddangos ymhellach ei waddol pensaernïol. Cafodd y Taj Mahal ei adeiladu fel beddrod i'w wraig, Mumtaz Mahal. Roedd yn ysblennydd ac yn weladwy i bawb, gan nodi ei awydd i adael gwaddol pensaernïol wrth ddangos ei gyfoeth a'i rym hefyd.
- Ar ben hynny, roedd cymhelliant crefyddol. Comisiynodd adeiladu'r Jama Masjid, un o'r mosgiau mwyaf yn India, gyda'r nod o fod yn lle i addoli ond hefyd yn enghraifft o ryfeddod pensaernïol.

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch ddatrys anghydfod teuluol gan Aurangzeb. | | [5] |
| **Cynnwys Dangosol** | | |
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>• Deliodd Aurangzeb â gwrthdaro teuluol trwy gael gwared ar y bobl a oedd yn ei wrthwynebu a chymryd rheolaeth lwyr.<br>• Fe wnaeth Aurangzeb ddileu bygythiad ei frodyr oherwydd yr oedd gan bob un ohonyn nhw hawl i'r orsedd. Gorchfygodd ei frawd hynaf Dara Shikoh ym Mrwydr Samugarh ym 1658. Dienyddwyd Shikoh ar ôl hynny yn 1659. Gorchfygwyd Shah Shuja a Marus Baksh gan Aurangzeb hefyd, gan galedu ei hawl i'r orsedd.<br>• I atgyfnerthu ei rym, carcharodd Aurangzeb ei dad, Shah Jahan, yng Nghaer Agra. Treuliodd ddiwedd ei oes yno wedi'i gyfyngu i'r gaer, heb allu dylanwadu ar reolaeth yr ymerodraeth na'r cyfle i anghytuno ag Aurangzeb. | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7(b) | Cyfanswm y marciau |
|---|---|
| Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio effaith duwioldeb crefyddol Aurangzeb.<br><br>**Eitem 1:** Bakhtawar Khan, hanesydd ac ymgynghorydd i'r ymerawdwr Aurangzeb, yn ysgrifennu yn ei adroddiad am agweddau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol yr Ymerodraeth Mughal Mir-at-i 'alam [Drych y Byd] (ail ganrif ar bymtheg)<br><br>Mae ysgrifenwyr Hindŵaidd wedi'u gwahardd yn llwyr rhag dal swyddi cyhoeddus, ac mae holl leoedd addoli a themlau mawr yr anffyddwyr hyn [anghredinwyr] wedi cael eu dymchwel a'u dinistrio mewn modd mor llwyddiannus mae wedi synnu pobl bod tasg mor anodd wedi'i chwblhau.<br><br>Mae Ei Fawrhydi (Aurangzeb) yn dysgu'r ffydd Fwslimaidd yn bersonol i'r rhai nad ydynt yn Fwslimiaid gyda llwyddiant, ac mae holl fosgiau'r ymerodraeth yn cael eu trwsio ar draul y cyhoedd.<br><br>**Eitem 2:** John Keay, hanesydd, newyddiadurwr a chyflwynydd, yn ysgrifennu yn ei lyfr o ddiddordeb cyffredinol *India: A history from the earliest civilizations to the boom of the twenty-first century* (2010)<br><br>Mae cefnogwyr Aurangzeb yn dadlau bod Shah Jahan hefyd wedi gwahaniaethu yn erbyn pobl nad oeddent yn Fwslimiaid ac wedi targedu temlau. Mewn gwirionedd, dinistriodd Aurangzeb ond ychydig o demlau ac roedd wedi caniatáu i eraill allu codi arian. Roedd y safleoedd a gafodd eu difrodi wedi'u dewis am eu bod yn fygythiad gwleidyddol neu ideolegol... Doedd hyd yn oed y jizya (treth ar bobl nad oeddent yn Fwslimiaid) ddim yn afresymol ac roedd y tlotaf wedi'u heithrio rhag talu. Ar ben hynny, mae'n ymddangos yn annhebygol y cafodd y dreth ei chasglu o gwbl yn rhanbarthau mwy anghysbell yr ymerodraeth. | **[15]** |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cynnwys Dangosol |
|---|
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>**Cymariaethau:**<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi bod Hindŵiaid a phobl nad oeddent yn Fwslimiaid wedi wynebu gwahaniaethu.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi bod temlau Hindŵaidd wedi'u dinistrio yn ystod rheolaeth Aurangzeb.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi y gwnaeth Aurangzeb hyrwyddo Islam.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi yr oedd cymhelliant crefyddol a gwleidyddol dros erlid yr Hindŵiaid.<br><br>**Cyferbyniadau:**<br>• Mae Eitem 1 yn dweud bod Aurangzeb wedi trin Hindŵiaid yn annheg, er enghraifft peidio â chaniatáu iddynt ddal swyddi cyhoeddus, ond mae Eitem 2 yn dweud yr oedd Aurangzeb yn rhesymol ac nid oedd wedi trin Hindŵiaid yn waeth na rheolwyr eraill y Mughal, er enghraifft Shah Jahan.<br>• Mae Eitem 1 yn awgrymu yr oedd cyflawniadau Aurangzeb (dinistrio temlau) yn sylweddol o ystyried anawsterau'r dasg, ond mae Eitem 2 yn awgrymu bod Aurangzeb ond wedi difrodi safleoedd crefyddol a welwyd yn fygythiad ac, mewn gwirionedd, ychydig o demlau yn unig a ddinistriwyd.<br>• Mae Eitem 1 yn dweud bod Aurangzeb wedi addysgu Islam yn llwyddiannus i bobl nad oeddent yn Fwslimiaid, ond mae Eitem 2 yn canolbwyntio mwy ar ei driniaeth deg o bobl nad oeddent yn Fwslimiaid.<br>• Mae Eitem 1 yn hanes manwl ar Aurangzeb wedi'i ysgrifennu gan ymgynghorydd o'r cyfnod sy'n canmol cyflawniadau Aurangzeb, ond mae Eitem 2 yn hanes mwy gwrthrychol sy'n dod o lyfr llawer ehangach ar Hanes India wedi'i ysgrifennu yn yr unfed ganrif ar hugain. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl ac eglur wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus |
| **4** | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus |
| **3** | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gosod, gyda rhywfaint o gywirdeb. Cymariaethau a chyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a** phriodoliadau |
| **2** | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **ac** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a/neu** briodoliadau |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **neu** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **neu** briodoliadau |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch brif egwyddorion ffydd ddwyfol Akbar. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Akbar oedd arweinydd ysbrydol ei ffydd ddwyfol (Din-i Ilahi) a oedd yn hyrwyddo undod a goddefgarwch crefyddol. Anogodd gyfuno credoau crefyddol gwahanol, gan gynnwys Islam, Hindŵaeth a Christnogaeth, er mwyn cael heddwch ar draws yr ymerodraeth.
- Roedd y ffydd ddwyfol yn hyrwyddo pobl i arwain ffordd o fyw dduwiol a chanolbwyntiodd ar egwyddorion moesol. Roedd Akbar yn credu bod teyrngarwch, gonestrwydd a pharch yn rhinweddau allweddol.
- Roedd pobl yn cael eu hannog i beidio â mabwysiadu arferion unigryw fel addoli'r haul, ac arferion Islamaidd traddodiadol, fel pererindod.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** bod rheolaeth Akbar yn llwyddiannus oherwydd iddi ddynodi cyfnod o oddefgarwch crefyddol.<br><br>Eitem 3: Awdur anhysbys yn ysgrifennu yn y dudalen wybodaeth *"Mughal Empire (1500s, 1600s)"* fel rhan o'r adran Grefydd ar wefan y BBC (2009)<br><br>Gweithiodd Akbar yn galed i ennill calonnau a meddyliau'r arweinwyr Hindŵaidd. Er mai digon tebyg yr oedd hyn am resymau gwleidyddol – priododd dywysoges Hindŵaidd (a'r sôn yw y priododd sawl mil o wragedd at ddibenion gwleidyddol a diplomyddol) – roedd hefyd yn rhan o'i athroniaeth.<br><br>Roedd Akbar yn credu y dylid caniatáu pob crefydd, ac mai dyletswydd rheolwr oedd trin pob crediniwr yn gyfartal, beth bynnag eu cred. | | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae rhywfaint o hygrededd i'r farn a fynegir yn Eitem 3 fod rheolaeth Akbar yn llwyddiannus oherwydd iddi ddynodi cyfnod o oddefgarwch crefyddol. Fel y dywed yr eitem, credai y dylid caniatáu pob crefydd ac am resymau gwleidyddol posibl priododd dywysoges Hindŵaidd. Croesawyd Hindŵiaid i weinyddiaeth a byddin y Mughal, a oedd yn hyrwyddo unigolion yn seiliedig ar feritocratiaeth.
- Cafodd Akbar wared ar y dreth Jizya i'r rhai nad oeddent yn Fwslimiaid, sefydlodd yr Ibadat Khana (Addoldy) lle gwahoddwyd ysgolheigion o bob crefydd i gymryd rhan mewn dadl grefyddol, a datblygodd y Din-i Ilahi (Ffydd Ddwyfol) a oedd yn ymgorffori elfennau amrywiaeth o grefyddau.
- Mae Eitem 3 yn ddarn o wefan BBC ac felly bydd yn fersiwn wedi'i olygu o'r digwyddiadau. Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd yn hytrach nag astudiaeth academaidd, sy'n cyfyngu ar ei soffistigeiddrwydd a'i gynnwys.
- Fodd bynnag, gall ymgeiswyr herio'r farn trwy bwysleisio ffactorau eraill. Er enghraifft, roedd rheolaeth Akbar yn llwyddiannus oherwydd ei system llysoedd a gweinyddu. Canolodd fiwrocratiaeth a chyflwynodd y system mansabdari a oedd yn dyrchafu swyddogion yn seiliedig ar feritocratiaeth. Sefydlodd system refeniw deg a sicrhaodd arian i'r ymerodraeth a chael gwared ar lygredd.
- Ar ben hynny, roedd llwyddiant rheolaeth Akbar oherwydd ei goncwestau milwrol. Etifeddodd Akbar ymerodraeth ddarniog a chyfeddiannodd diriogaethau cyfagos, gan sicrhau enillion tiriogaethol sylweddol mewn ardaloedd fel Gujarat, Bengal a Kashmir. Trwy orchfygu'r ardaloedd hyn, cafodd Akbar wared ar fygythiadau posibl a chynyddodd gyfoeth yr ymerodraeth. Gwnaeth Brwydr Panipat ym 1556 helpu i sefydlu rheolaeth y Mughal yn India.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

- Gall ymgeiswyr ddadlau bod y gosodiad yn gywir ar y cyfan, a nodi'r camau cadarnhaol a gymerodd i ddatblygu goddefiant crefyddol o fewn yr Ymerodraeth, neu gallan nhw ddadlau er bod goddefiant crefyddol yn bwysig, roedd ei reolaeth yn llwyddiannus oherwydd y diwygiadau a roddodd ar waith a/neu'r ehangu a welodd yn ystod ei deyrnasiad. Gellid dadlau hefyd fod ei allu i ehangu'r ymerodraeth, ynghyd â'i oddefiant crefyddol, wedi gadael yr Ymerodraeth mewn sefyllfa gryfach.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024 

# Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 3.3

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.3.1 | | | | | | 3.3.2 | | | | | | 3.3.3 | | | | | | 3.3.4 | | | | | | 3.3.5 | | | | | | | | | | | |
| | | 3.3.1ai | 3.3.1aii | 3.3.1bi | 3.3.1bii | 3.3.1ci | 3.3.1cii | 3.3.2ai | 3.3.2aii | 3.3.2bi | 3.3.2bii | 3.3.2ci | 3.3.2cii | 3.3.3ai | 3.3.3aii | 3.3.3bi | 3.3.3bii | 3.3.3ci | 3.3.3cii | 3.3.4ai | 3.3.4aii | 3.3.4bi | 3.3.4bii | 3.3.4ci | 3.3.4cii | 3.3.5ai | 3.3.5aii | 3.3.5bi | 3.3.5bii | 3.3.5ci | 3.3.5cii | | | | | | |
| 1 | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | 10 | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3a | 5 | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3b | 15 | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4b | 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | x | x | x | x | | | | | | |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 3.4

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.4.1 | | | | | | 3.4.2 | | | | | | 3.4.3 | | | | | | 3.4.4 | | | | | | 3.4.5 | | | | | |
| | | 3.4.1ai | 3.4.1aii | 3.4.1bi | 3.4.1bii | 3.4.1ci | 3.4.1cii | 3.4.2ai | 3.4.2aii | 3.4.2bi | 3.4.2bii | 3.4.2ci | 3.4.2cii | 3.4.3ai | 3.4.3aii | 3.4.3bi | 3.4.3bii | 3.4.3ci | 3.4.3cii | 3.4.4ai | 3.4.4aii | 3.4.4bi | 3.4.4bii | 3.4.4ci | 3.4.4cii | 3.4.5ai | 3.4.5aii | 3.4.5bi | 3.4.5bii | 3.4.5ci | 3.4.5cii |
| 5 | 5 | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | |
| 7a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | |
| 7b | 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | |
| 8a | 5 | | | | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8b | 20 | | | | | | | x | x | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Hawlfraint**

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol.datblygucymwysterau@cbac.co.uk

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024 